# Adroddiad Monitro Grwpiau Trawsbleidiol - Medi 2017

1. Paratoir y papur hwn gan y Swyddfa Gyflwyno ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn unol â pharagraff 44 o'r rheolau ar weithrediad Grwpiau Trawsbleidiol ('y rheolau'). Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol y Cynulliad rhwng mis Mai 2016 a diwedd tymor yr haf 2017 ar 21 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad hefyd yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried argymhellion y mae'n dymuno eu gwneud i'r Llywydd ynghylch Grwpiau Trawsbleidiol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r rheolau yn ystod y cyfnod adrodd.

2. O dan baragraff 41 o'r rheolau, gallai methu â chydymffurfio â'r rheolau, neu dorri'r rheolau, arwain, yn y pen draw, at ddileu cydnabyddiaeth o'r grŵp ar awdurdod y Llywydd. (Byddai'r grŵp yn cael ei ddadgofrestru a byddai'r holl fanylion yn cael eu tynnu oddi ar wefan y Cynulliad ).

## Grwpiau Trawsbleidiol Cofrestredig

3. Mae cyfanswm o 55 o Grwpiau Trawsbleidiol wedi eu cofrestru ers dechrau'r pumed Cynulliad. Mae rhestr o'r grwpiau, ynghyd ag enwau'r Cadeiryddion a'r personau / sefydliadau sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol, wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Mae manylion llawn am gyfarfodydd pob grŵp wedi'u cynnwys ar wefan y Cynulliad.

## Cydymffurfio

4. Mae'r rheolau'n ymwneud â gweithrediad Grwpiau Trawsbleidiol yn mynnu bod Cadeiryddion y Grwpiau'n darparu'r wybodaeth ganlynol i'r Swyddfa Gyflwyno o fewn amserlenni penodedig:

- Cymaint o rybudd ymlaen llaw o gyfarfodydd â phosib (gan gynnwys dyddiadau, amserau a lleoliad cyfarfodydd);
- Hysbysiad o ethol swydd-ddeiliaid (o fewn pedair wythnos i gynnal yr etholiad);
- Cyflwyno cofnodion (o fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod);
- Hysbysiad o unrhyw newidiadau ym manylion y Grŵp Trawsbleidiol (o fewn pedair wythnos i'r newidiadau ddod i rym);
- Cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o fewn 12 mis, ac ar ôl hynny rhaid i'r Cadeirydd ddarparu Adroddiad Blynyddol a

Datganiad Ariannol o fewn chwech wythnos i gynnal y cyfarfod hwnnw.

5. Er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am eu cyfrifoldebau fel Cadeiryddion Grwpiau Trawsbleidiol, anfonwyd neges e-bost gan y Swyddfa Gyflwyno at bob Aelod ar 4 Mai 2017 yn amlinellu'r gofynion uchod. Anfonwyd llythyr hefyd gan y Llywydd wedyn at Gadeiryddion pob Grŵp Trawsbleidiol cofrestredig ar 17 Mai 2017 gyda manylion am weithgareddau pob Grŵp i'r Cadeiryddion eu gwirio.

6. Amlinellir crynodeb o weithgareddau pob grŵp isod. Mae eu cydymffurfiad â'r rheolau wedi'i gategoreiddio fel a ganlyn:

- Categori A: Grwpiau sy'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol o fewn yr amserlenni gofynnol.
- Categori B: Grwpiau sy'n cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ond sy’n hwyr yn gwneud hynny.
- Categori C: Grwpiau nad ydynt wedi darparu’r manylion sy'n ofynnol gan y rheolau.

| **Categori A - Grwpiau sy'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol o fewn yr amserlenni gofynnol (20):** | |
|---|---|
| **Enw’r grŵp (a’r Cadeirydd)** | **Crynodeb o gydymffurfiaeth** |
| Awtistiaeth (Mark Isherwood) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; darparwyd y cofnodion ar amser ar gyfer pob cyfarfod; rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer un cyfarfod yn unig; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Medi. |
| Bioamrywiaeth (Llŷr Gruffydd) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; darparwyd y cofnodion ar amser ar gyfer pob cyfarfod; ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Paffio (Neil McEvoy) | Cynhaliwyd un cyfarfod; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Darparwyd y cofnodion ar amser; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Mehefin (y flwyddyn nesaf). |
| Adeiladu (Joyce Watson) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod (y ddwy set yn hwyr); Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Hydref. |
| Dementia (Lynne Neagle) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Medi. |
| Anabledd (Mark Isherwood) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer y |

| | |
|---|---|
| | ddau gyfarfod ar amser; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Mawrth. |
| Anhwylderau Bwyta (Bethan Jenkins) | Cynhaliwyd un cyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Ionawr. |
| Angladdau a Phrofedigaeth (Mark Isherwood) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Medi. |
| Addysg Bellach a Sgiliau Dyfodol (John Griffiths) | Trefnwyd cyfarfod agoriadol ar gyfer 26 Medi 2017; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw. |
| Sipsiwn a Theithwyr (Julie Morgan) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod ar amser; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Hemoffilia a Gwaed wedi'i Heintio (Julie Morgan) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod ar amser; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 18 Gorffennaf 2017; Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar amser. |
| Plant sy'n Derbyn Gofal (David | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob |

| | |
|---|---|
| Melding) | cyfarfod (cyflwynwyd un set yn hwyr); Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 8 Mawrth 2017; Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar amser. |
| Iechyd Meddwl (David Rees) | Cynhaliwyd un cyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Rhagfyr. |
| Nyrsio a Bydwreigiaeth (David Rees) | Cynhaliwyd un cyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Hydref. |
| Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) (Julie Morgan) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfodydd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Rhwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol (Jayne Bryant) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Croen (Nick Ramsay) | Cynhaliwyd un cyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Medi. |
| Siopau Bach (Janet Finch- | Cynhaliwyd dau gyfarfod; |

| | |
|---|---|
| Saunders_ | Darparwyd y cofnodion ar amser; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o’r cyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Medi. |
| Ynni Cynaliadwy (Llŷr Gruffydd) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer dau gyfarfod ar amser; Darparwyd un set o gofnodion yn hwyr; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas â dau gyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Medi. |
| Cymru Rhyngwladol (Rhun ap Iorwerth) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; Darparwyd y cofnodion ar amser; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas â thri chyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Hydref. |

| **Categori B - Grwpiau sy'n cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ond sy’n hwyr yn gwneud hynny (22)** | |
|---|---|
| Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid (Darren Millar) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; **Darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod (un set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer y naill gyfarfod na'r llall; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Medi. |
| Asbestos (Nick Ramsay) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; **Darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod (yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer y naill gyfarfod na'r llall; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i’w gynnal ym mis Medi. |
| Canser (Julie Morgan) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(dwy set yn hwyr)**; rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer un cyfarfod yn unig; Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin; Darparwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol yn hwyr. |
| Plant a Phobl Ifanc (Julie Morgan) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(dwy set yn hwyr)**; ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gyfarfod; Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf **(pum diwrnod yn hwyr)**; Darparwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar amser. |
| Clefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis (Dai Lloyd) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(dwy set yn hwyr)**; |

| | |
|---|---|
| | Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Materion yn ymwneud â Phobl Fyddar (Ann Jones) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod **(un set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Ionawr. |
| Diabetes (Jayne Bryant) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod **(dwy set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas ag un cyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Gofal Lliniarol a Hosbisau (Mark Isherwood) | Cynhaliwyd un cyfarfod; **Ni dderbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016 tan mis Awst 2017.** Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Medi. |
| Cymunedau Diwydiannol (Vikki Howells) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(un set yn hwyr)**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol (Bethan Jenkins) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion **(y ddwy set yn hwyr)**; Dim rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfodydd; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Mawrth. |
| Cynghrair Gogledd Cymru a Mersi a'r Dyfrdwy (Hannah Blythyn) | Cynhaliwyd un cyfarfod; **Darparwyd y cofnodion yn hwyr**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w |

| | |
|---|---|
| | gynnal ym mis Mai. |
| Sepsis (Angela Burns) | Cynhaliwyd un cyfarfod; **Darparwyd y cofnodion yn hwyr**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Mentrau Bach a Chanolig (Hefin David) | Cynhaliwyd un cyfarfod; **Darparwyd y cofnodion yn hwyr**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Chwefror |
| Dur (David Rees) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; **Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod yn hwyr**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Medi. |
| STEM (David Rees) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(tair set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas ag un cyfarfod; Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; **Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol yn hwyr**. |
| Strôc (Dai Lloyd) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(un set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas ag un cyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Mawrth. |
| Twristiaeth (Suzy Davies) | Cynhaliwyd pum cyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(tair set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ar gyfer dau gyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Hydref. |

| | |
|---|---|
| Prifysgolion (Huw Irranca-Davies) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(dwy set yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ar gyfer dau gyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Trais yn erbyn menywod a phlant (Bethan Jenkins a Mark Isherwood) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(dwy set yn hwyr – cyflwynwyd un set chwe mis yn hwyr)**; Ni roddwyd rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas ag un cyfarfod; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Hydref. |
| Golwg (Dai Lloyd) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod **(yn hwyr)**; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Tachwedd. |
| Ambiwlans Awyr Cymru (Lee Waters) | Cynhaliwyd un cyfarfod; **Darparwyd y cofnodion yn hwyr**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Mawrth. |
| Dyfrffyrdd (Nick Ramsay) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod **(un set yn hwyr)**; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Hydref. |
| Yr Iaith Gymraeg (Jeremy Miles) | Cynhaliwyd un cyfarfod; **Darparwyd y cofnodion yn hwyr**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Ionawr. |

| **Categori C - Grwpiau nad ydynt wedi darparu'r manylion sy'n ofynnol gan y rheolau (mae'r eitemau na ddarparwyd wedi'u cynnwys mewn print trwm ac wedi'u tanlinellu) (13)** | |
|---|---|
| Celfyddydau ac Iechyd (Eluned Morgan) | Cofrestrwyd ar 6 Medi 2016; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |
| Materion Trawsffiniol (Russell George) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer un cyfarfod (yn hwyr); **Ni ddarparwyd dim cofnodion ar gyfer cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017**; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Ionawr. |
| Cylchffordd Cymru (Lynne Neagle) | Cofrestrwyd ar 10 Ebrill 2017; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |
| Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol (Jeremy Miles) | Cofrestrwyd ar 29 Mehefin 2016; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |
| Ffydd (Darren Millar) | Cynhaliwyd pedwar cyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer pob cyfarfod ar amser; **Ni chynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol erbyn y dyddiad targed, sef mis Gorffennaf ac ni ddarparwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**. |
| Tadau a Thadolaeth (Mark Isherwood) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion ar gyfer dau gyfarfod (y ddwy set yn hwyr); **Ni ddarparwyd cofnodion ar gyfer cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2017**; **Ni chynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol erbyn y dyddiad targed, sef mis Gorffennaf; Ni ddarparwyd** |

| | |
|---|---|
| | **Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol.** |
| Tlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni | Cofrestrwyd ar 16 Mehefin 2017; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |
| Bwyd a Diod (Nick Ramsay) | Cynhaliwyd dau gyfarfod; **Ni ddarparwyd dim cofnodion**; Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfodydd; **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Mehefin - dim cofnod bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i gynnal; Ni ddarparwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol.** |
| Tai (Mike Hedges) | Cofrestrwyd ar 10 Ionawr 2017; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |
| Masnachu mewn Pobl (Joyce Watson) | Cofrestrwyd ar 20 Mehefin 2016; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |
| Cyflyrau Niwrolegol (Mark Isherwood) | Cynhaliwyd tri chyfarfod; Darparwyd cofnodion (cyflwynwyd un set yn hwyr); **Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mis Mehefin - dim cofnod iddo gael ei gynnal; Ni ddarparwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol.** |
| Pobl Hŷ n (Mike Hedges) | Cofrestrwyd ar 1 Tachwedd 2016; **Ni ddarparwyd dim manylion ers cofrestru.** |

**Casgliad**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi gweithgareddau’r Grwpiau Trawsbleidiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

8. Ar ôl ystyried y wybodaeth am gydymffurfio sydd wedi’i chynnwys yn y tabl uchod, gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw'n dymuno argymell bod y Llywydd yn cymryd camau yn erbyn y grwpiau a nodwyd yng Nghategori C. Yn benodol, efallai yr hoffai’r Pwyllgor argymell bod y Llywydd yn cymryd y camau canlynol:

- Ysgrifennu at Gadeiryddion y Grwpiau Trawsbleidiol yn y categori hwnnw yn gofyn am eglurhad ynghylch pam na ddarparwyd rhai manylion;

- Cael gwared ar rai Grwpiau Trawsbleidiol nad ydynt yn cydymffurfio.

9. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno ystyried a ydyw am argymell cymryd unrhyw gamau yn erbyn y grwpiau sydd wedi’u cynnwys yng Nghategori B sydd wedi cyflwyno gwybodaeth yn hwyr.

## Atodiad: Grwpiau Trawsbleidiol Cofrestredig

| **Cadeirydd (nifer y grwpiau)** | **Grŵp Trawsbleidiol** | **Person a mudiad sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol** |
|---|---|---|
| Mark Isherwood (7.5) | Awtistiaeth | Meleri Thomas, Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol |
| | Anabledd | Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru |
| | Tadau a Thadolaeth | Paul Apreda, FNF Both Parents Matter |
| | Angladdau a Phrofedigaeth | David Beamer, Brevia Consulting |
| | Cyflyrau Niwrolegol | Megan Evans, Cynghrair Niwrolegol Cymru |
| | Trais yn erbyn Menywod a Phlant (Cyd-Gadeirydd â Bethan Jenkins) | Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru |
| | Tlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni | Helen Roach, NEA Cymru |
| | Gofal Lliniarol a Hosbisau | Kathleen Caper, Hospice UK |
| Julie Morgan (5) | Canser | Clare Bath, Cancer Research UK |
| | Plant a Phobl Ifanc | Catriona Williams, Plant yng Nghymru |
| | Sipsiwn a Theithwyr | Thomas Hendry, Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru (SEWREC) |
| | Hemoffilia a Gwaed wedi'i Heintio | Lynne Kelly, Hemoffilia Cymru |
| | Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol | Darren Williams, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| David Rees (4) | Iechyd meddwl | Lewis Cole, Gofal |
| | Nyrsio a Bydwreigiaeth | Tina Donnelly, Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| | Dur | Angharad Thomas, Staff Cymorth David Rees |
| | STEM; | Leigh Jeffes, Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol |
| Nick Ramsay (4) | Asbestos | Cenric Clement-Evans, New Law Solicitors |
| | Croen | Dr Julie Peconi, Gofal Croen Cymru |
| | Dyfrffyrdd | Emily Lewis, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru |
| | Bwyd a Diod Cymru | Matthew Phipps, Cyfreithwyr TLT |
| Dai Lloyd (3) | Clefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis | Tristan Humphreys, Coeliac UK |
| | Strôc | Jillian Haynes, Y Gymdeithas Strôc |
| | Golwg | Emma Sands, RNIB Cymru |
| Bethan Jenkins (2.5) | Anhwylderau Bwyta | Lewis Cole, Gofal |
| | Nychdod Cyhyrol | Jonathan Kingsley, Muscular Dystrophy UK |
| | Trais yn erbyn Menywod a Phlant (Cyd-Gadeirydd â Mark Isherwood) | Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru |
| Darren Millar (2) | Y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid | Kathryn Sharpe, Staff Cymorth Darren Millar |
| | Ffydd | Jim Stewart, Cynghrair Efengylaidd Cymru – |

| | | |
|---|---|---|
| Llyr Gruffydd | Bioamrywiaeth | Liz Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| | Ynni Cynaliadwy | Carolyn Pugsley, Freshwater UK |
| Joyce Watson (2) | Adeiladu | Josh Miles, Ffederasiwn Busnesau Bach |
| | Masnachu mewn pobl yng Nghymru | Mwenya Chimba Bawso |
| Jeremy Miles (2) | Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol | Ceri-Anne Fidler, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| | Yr Iaith Gymraeg | Ceri McEvoy a Colin Nosworthy, Mudiadau Dathlu'r Gymraeg |
| Mike Hedges (2) | Tai | Matthew Kennedy, Sefydliad Tai |
| | Pobl Hŷn | Rachel Lewis, Age Cymru Wales |
| Eluned Morgan (1) | Y Celfyddydau ac Iechyd | Anhysbys |
| Suzy Davies (1) | Twristiaeth | Craig Lawton, Staff Cymorth Suzy Davies |
| Janet Finch-Saunders (1) | Siopau Bach | Edward Woodall, Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Huw Irranca-Davies(1) | Prifysgolion | Rhys Flowers, Four Cymru |
| Vikki Howells (1) | Cymunedau Diwydiannol | Peter Slater, Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol. |
| David Melding (1) | Plant sy’n Derbyn Gofal | Rhian Williams Voices from Care |
| Jayne Bryant (2) | Rhwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol | NSPCC Cymru / Wales, Stop it Now! Wales a Survivors Trust Cymru |
| | Diabetes | Sara Moran, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Diabetes UK Cymru |
| Russell George (1) | Materion trawsffiniol | John Pockett, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr yng Nghymru / Rheilffyrdd Great Western |
| Ann Jones (1) | Materion yn ymwneud â Phobl Fyddar | Llyr Wilson Price, Action on Hearing Loss |
| Lynne Neagle (2) | Dementia | Ed Bridges, Cymdeithas Alzheimer Cymru |
| | Cylchffordd Cymru | Jonathan Morgan, Insight Wales Consulting |
| Rhun ap Iorwerth (1) | Cymru Rhyngwladol | Jenny Scott, British Council Cymru |
| Hefin David (1) | Mentrau Bach a Chanolig | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Angela Burns (1) | Sepsis | Terrance Canning, Ymddiriedolaeth Sepsis |
| John Griffiths (1) | Addysg Bellach a Sgiliau Dyfodol | Clare Roberts, Colleges Wales / Colegau Cymru |
| Lee Waters (1) | Ambiwlans Awyr Cymru | Angela Hughes, Ambiwlans Awyr Cymru |
| Neil McEvoy (1) | Paffio | Ellis Cummings (gallu personol) |
| Hannah Blythyn (1) | Cynghrair Gogledd Cymru a Mersi a’r Dyfrdwy | Stephen Jones, CLlLC |